Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mawrth, 21 Mai 2013**

Amser:
**09:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Polisi: Tom Jackson**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8597
Publicaccounts.comm@Wales.gov.uk

## Agenda

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:00-09:05)

### 2. Cyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ymatebion Llywodraeth Cymru i adroddiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 'Cyllid Iechyd' a 'Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru' (9:05 - 9:10) (Tudalennau 1 - 23)

PAC(4) 15-13 - Papur 1 - Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 'Cyllid Iechyd'
PAC(4) 15-13 - Papur 2 - Cyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 'Cyllid Iechyd'
PAC(4) 15-13 - Papur 3 - Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 'Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru'
PAC(4) 15-13 - Papur 4 - Cyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 'Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru'

### 3. Papurau i'w nodi (Tudalennau 24 - 27)

PAC(4) 15-13 - Papur 5 - Ymateb i gam i'w gymryd o gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 18 Ebrill

Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

**4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:**

Eitemau 5 i 7.

**5. Sesiwn friffio ar y materion cyfreithiol sy’n gysylltiedig ag ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i broses gaffael Llywodraeth Cymru a’r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen (9:10 - 9:25)** (Tudalennau 28 - 32)

**6. Trafod cymorth i'r Pwyllgor (9:25 - 9:30)** (Tudalennau 33 - 35)

**7. Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Ystyried yr adroddiad drafft (9:30-11:00)** (Tudalennau 36 - 69)

# Ymateb i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Gyllid Iechyd

Rydym yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r 12 argymhelliad a geir ynddo.

**Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei fformiwlâu ariannu ar gyfer cefnogi gwahanol gyrff iechyd gan sicrhau ei bod yn rhoi'r pwys priodol ar ddemograffeg, daearyddiaeth ranbarthol a ffactorau perthnasol eraill, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol, ac yn eu hystyried.**

**Ymateb:-** ***Derbyn***

*O dan y trefniadau blaenorol, o 22 Bwrdd Iechyd Lleol, aeth Llywodraeth Cymru ar drywydd gweithredu fformiwla anghenion uniongyrchol "Townsend" trwy gymhwyso twf gwahaniaethol yn ystod y cyfnod 2003/04 i 2007/08. Ers ffurfio'r 7 Bwrdd Iechyd Lleol integredig yn 2009 cyfyngedig fu'r cynnydd gan nad yw'r fformiwla wedi cael ei ddiweddaru yng ngoleuni'r heriau ariannol sylweddol rydym yn eu hwynebu.*

*Mae gwaith i gyflwyno Trefn Ariannol newydd, fel y'i nodir yn 'Law yn Llaw at Iechyd', yn cynnwys Adolygiad o Ddyraniad Adnoddau fel un o'r prosiectau allweddol i gefnogi'r thema drosfwaol ar Gynllunio Tymor Canolig Integredig. Bydd y prosiect yn cynnwys:*

- *Datblygu fformiwla dyrannu adnoddau y gellir ei gymhwyso ar lefel Bwrdd Iechyd Lleol ac i gefnogi Byrddau Iechyd Lleol, ar lefel yr ardal leol*
- *Sicrhau bod y pwysoliad anghenion yn adlewyrchu ffactorau perthnasol megis demograffeg, anghydraddoldebau, daearyddol ac ati*

*Bydd hwn yn brosiect sylweddol fydd yn cymryd rhywfaint o amser i'w ddatblygu'n llawn, ei adolygu ac i gael ei wedd derfynol. Felly mae'n debyg y bydd cam cyntaf ei weithredu yn 2015/16 fan cynharaf.*

**Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn fwy tryloyw ynghylch y sail resymegol dros ddyrannu gwahanol lefelau o arian i wahanol sefydliadau iechyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan roddir arian ychwanegol yn ystod y flwyddyn i wasanaethau iechyd. Dylai'r fath ddyraniadau fod yn seiliedig ar achos busnes clir gan bob un o sefydliadau'r GIG sy'n cael adnoddau.**

**Ymateb:-** ***Derbyn***

*Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r symudiad at fwy o dryloywder ar draws pob agwedd ar ei waith rheoli ariannol a chyllidebol. Mae'r dyraniad refeniw blynyddol i Fyrddau Iechyd eisoes yn cael ei gyhoeddi, gan nodi dosraniad cyllid i bob Bwrdd a chan esbonio sail y dosraniad.*

*Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn y dylai unrhyw gyllid ychwanegol a ddarperir yn ystod y flwyddyn gael ei seilio ar dystiolaeth glir o'r angen a'i gefnogi gan gynllun clir ynglŷn â sut y caiff yr adnoddau hynny eu defnyddio. Roedd hyn yn wir yn 2012-13, yn dilyn adolygiad canol-blwyddyn manwl a chraffu manwl ar sefyllfa ariannol pob un o'r Byrddau Iechyd.*

*Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu mabwysiadu proses fwy tryloyw i ddarparu hyblygrwydd ariannol i Fyrddau Iechyd o fewn blynyddoedd ariannol a dros gylch cynllunio tair blynedd fel rhan o'r drefn ariannol newydd. Bydd cymhwyso a chymeradwyo'r ddau fath o hyblygrwydd yn dibynnu ar Fyrddau'n darparu achos busnes clir sy'n rhoi manylion y rhesymau dros ofyn am yr hyblygrwydd.*

*Ni phenderfynwyd eto ar fanylion y meini prawf a gofynion ar gyfer cael yr arian hwn, ond bydd Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i gyhoeddi'r ceisiadau am hyblygrwydd a gymeradwyir a'r proffiliau ad-dalu.*

**<u>Argymhelliad 3. -</u> Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd lunio cyllideb fantoledig lawn cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, a bod y gyllideb hon yn cael ei hategu gan gynllun cadarn a chynhwysfawr ar gyfer arbed arian a'r gweithlu, sydd wedi'i broffilio'n briodol.**

**Ymateb: -** ***Derbyn mewn egwyddor***

*Yn y gorffennol mae wedi bod yn ofynnol i'r holl Fyrddau Iechyd gyflwyno cynlluniau ariannol i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mawrth ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. Mae'r cynlluniau hyn wedi cynnwys set o dablau ariannol yn dangos yn glir sut y byddid yn mantoli'r cyfrifon, gan gynnwys manylion yr arbedion i gael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn bod angen i'r cynlluniau hyn fod yn realistig, ymdrin â'r tymor canolig a dangos mwy o gysylltiad rhwng capasiti'r gweithlu a chynllunio gwasanaethau..*

*Ar gyfer 2013/14, mae'n ofynnol i bob Bwrdd Iechyd gyflwyno ei gynllun integredig 3 blynedd cymeradwy terfynol erbyn 31ain Mawrth 2013. Mae drafftiau cynnar wedi tynnu sylw at yr anhawster mae pob Bwrdd Iechyd yn ei gael wrth gynhyrchu cynllun realistig sy'n dangos sefyllfa mantoli'r cyfrifon yn y tymor byr a'r tymor canolig.*

*Bydd Swyddogion Llywodraeth Cymru'n parhau i gydweithio'n agos â'r Byrddau Iechyd i sicrhau bod modd cyflawni'r cynlluniau a'u bod yn cael eu cefnogi gan gynllun arbedion a gweithlu cadarn sy'n ymdrin â'r cyfnod hyd 2015-16..*

**Argymhelliad 4. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â sefydliadau'r GIG i'w galluogi i fanteisio ar bob cyfle i sicrhau arbedion effeithlonrwydd, gan gynnwys ymarferion caffael gyda rhannau eraill o'r sector cyhoeddus gan gynnwys awdurdodau lleol, addysg, yr heddlu, gwasanaethau tân ac achub.**

**Ymateb:-** ***Derbyn***

*Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu'r argymhelliad hwn. Ym maes caffael mae trefniadau eisoes wedi'u hen sefydlu o ran arbedion effeithlonrwydd ar y cyd ym maes caffael, trwy Gydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Caffael, a hefyd trwy gontractau ar draws y sector cyhoeddus cyfan trwy Werth Cymru. Mae egwyddor cydweithredu yn GIG Cymru'n bodoli ers blynyddoedd lawer ac mae digonedd o dystiolaeth o'r arbedion o hyn.*

*Croesawodd Llywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad llawn ac argymhellion adolygiad John F McClelland ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru. Ym mis Rhagfyr cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Polisi Caffael Cymru sy'n nodi'n glir yr arferion caffael a'r camau gweithredu penodol fydd yn ofynnol i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.*

*Bydd Llywodraeth Cymru, trwy Werth Cymru a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, yn parhau i ymgysylltu â sefydliadau iechyd a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i gryfhau cydweithredu. Mae gan Gydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Caffael ran allweddol ar ran y sefydliadau iechyd unigol yn y cydweithrediad hwn.*

**Argymhelliad 5. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei chyllidebau i'w bodloni ei hun bod yr adnoddau y bydd yn eu rhoi i sefydliadau'r GIG mewn blynyddoedd i ddod yn adlewyrchu'r cynnydd yn y galw am wasanaethau a welwyd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.**

**Ymateb:-** ***Derbyn***

*Mae Llywodraeth Cymru'n adolygu ei chyllideb ar gyfer blynyddoedd y dyfodol yn nhermau Iechyd a phortffolios Gweinidogion eraill yn ystod y gwaith o baratoi'r gyllideb derfynol, craffu arni a'i chyhoeddi, bob blwyddyn. Mae'r gwaith paratoi ar gyfer cyllideb 2014/15 wedi dechrau ac fel yn y blynyddoedd blaenorol cynhelir cyfarfodydd dwyochrog rhwng Gweinidogion/trafodaethau Cabinet i drafod pwysau ar wasanaethau'r GIG a materion eraill.*

*Cyhoeddwyd cyllideb yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant ar gyfer 2013-14 fel rhan o gyhoeddiad cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2012. Mae'n ofynnol i sefydliadau'r GIG baratoi cynlluniau gwasanaeth, gweithlu ac ariannol integredig yn unol â'r adnoddau sydd wedi cael eu dyrannu. Bydd y cynlluniau hyn yn nodi'r pwysau o ran y galw a'r pwysau ariannol y bydd angen mynd i'r afael â hwy.*

*Y drefn arferol yw cyflawni proses o adolygu gofynion cyllidebau Adrannau rhwng ymarferion cyllideb derfynol a bydd hyn yn wir ar gyfer 2013/14. Bydd cynlluniau'r GIG sy'n adlewyrchu'r profiadau a'r pwysau o ran y galw yn 2012/13, y mae'r Byrddau Iechyd Lleol yn rhoi eu gwedd derfynol arnynt, yn cael eu trafod eto trwy Gyfarfodydd Dwyochrog a thrafodaethau Cabinet er mwyn craffu ar unrhyw newidiadau cyllidebol y bernir y mae eu hangen, trwy'r broses gyllideb atodol yn 2013/14.*

**<u>Argymhelliad 6.</u> Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod sefydliadau'r GIG yn cael cymaint o fanylion â phosibl am yr arian sydd ar gael cyn dechrau'r flwyddyn ariannol, gan gynnwys cronfeydd wrth gefn a'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn gwneud cais am y fath gyllid.**

**Ymateb:- *Derbyn mewn egwyddor***

*Mae Llywodraeth Cymru yn dosbarthu eu dyraniad refeniw blynyddol i'r Byrddau Iechyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Mae hyn yn nodi faint o gyllid dewisol craidd sydd ar gael i'r Byrddau, ynghyd â gwybodaeth am unrhyw ragdybiaethau allweddol y dylent eu gwneud ynglŷn ag argaeledd arian arall na chafodd ei gynnwys yn y dyraniad cychwynnol. Mae hyn yn cynnwys arian heb ei neilltuo sy'n cael ei gadw'n ôl i'w roi yn ystod y flwyddyn er mwyn cyflawni amcanion penodol. Disgwylir i'r Byrddau ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer y flwyddyn ariannol o fewn yr amlen ariannu hon.*

*Fel y nodir yn ein hymateb i Argymhelliad 5, bydd Llywodraeth Cymru'n cydweithio gyda sefydliadau'r GIG i fynd i'r afael ag unrhyw heriau ariannol net sy'n deillio o'r cynlluniau hyn. Rhoddir gwybodaeth cyn gynted ag sy'n bosibl am unrhyw arian ychwanegol a all fod ar gael, a'r amodau ar gyfer rhoi'r arian hwnnw.*

*Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r drefn ariannu newydd, rhoddir rhagor o wybodaeth i'r Byrddau am argaeledd arian hyblygrwydd, gan gynnwys defnyddio arian wrth gefn yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn cynnwys hyblygrwydd dros gylch cynllunio tair blynedd a hefyd hyblygrwydd diwedd blwyddyn tymor byr. Rhoddir gwybod am yr arian sydd ar gael ar gyfer hyblygrwydd cynlluniedig dros gylch tair blynedd i'r Byrddau Iechyd fel rhan o'r gwaith o ddatblygu rhagdybiaethau cynlluniau adnoddau blynyddol yn yr hydref cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd er mwyn cynorthwyo â chynllunio tymor canolig.*

**<u>Argymhelliad 7.</u> Rydym yn argymell, lle y bo'n briodol, fod Llywodraeth Cymru yn parhau i roi arian gwrthbwyso i fyrddau iechyd lleol fel mesur dros dro i ganiatáu ar gyfer hyblygrwydd ar ddiwedd y flwyddyn. Dylid rhoi'r gorau i drefniadau gwrthbwyso unwaith y bydd ateb deddfwriaethol mwy parhaol i fater hyblygrwydd ar ddiwedd y flwyddyn wedi'i roi ar waith.**

**Ymateb:- *Derbyn mewn egwyddor***

*Mae gallu'r GIG i gynllunio a threfnu ei wasanaethau mewn modd hyblyg a chynaliadwy yn hanfodol. O'r herwydd mae gwaith i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau ariannol cyfredol a osodir gan y ddeddfwriaeth bresennol yn cael ei wneud fel rhan o'n hymrwymiad i gyflwyno trefn ariannol newydd fel y nodir yn 'Law yn Llaw at Iechyd', ein gweledigaeth strategol 5 mlynedd ar gyfer y GIG yng Nghymru, gan weithgor sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol cyllid y GIG a Llywodraeth Cymru.*

*Gan gydnabod y gall gymryd cyfnod sylweddol i roi newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol ar waith, rydym yn ystyried opsiynau y gellir eu gweithredu o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol. Mae'r rhain yn cynnwys atebion yn y tymor hirach (Hyblygrwydd Ariannol Cynlluniedig) ac yn y tymor byrrach (Cronfa Froceriaeth y GIG).*

*Mae'r trefniant Hyblygrwydd Ariannol Cynlluniedig yn cael ei ddatblygu i gynorthwyo â'r cylch cynllunio ac ariannol tymor hirach a bydd yn darparu hyblygrwydd adnoddau (gan ddibynnu ar yr holl adnoddau sydd ar gael) wedi'i gysylltu â chynllun integreiddio mantoledig cymeradwy. Rhagwelir y byddai Byrddau Iechyd Lleol yn gofyn am Hyblygrwydd Ariannol Cynlluniedig lle bo'r Byrddau'n rhagamcanu y byddent yn profi brigau a chafnau ariannol o fewn y cynllun ariannol 3 blynedd mantoledig.*

*Hefyd yn aml mae yna broblemau ariannol penodol yn ystod y flwyddyn a heriau tymor byr na ellir o angenrheidrwydd cynllunio ar eu cyfer na'u rhagweld yn hawdd. O dan yr amgylchiadau hyn cydnabyddir bod angen i drefniadau hyblygrwydd tymor byrrach fodoli. Felly mae trefniant broceriaeth yn ystod y flwyddyn mwy ffurfiol yn cael ei ddatblygu (unwaith eto gan ddibynnu ar yr holl adnoddau sydd ar gael), i fynd i'r afael â'r sefyllfaoedd hynny lle bo amgylchiadau na ragwelwyd yn ei gwneud yn anodd i fyrddau Iechyd fantoli eu cyfrifon a chydymffurfio â'u terfyn adnoddau statudol presennol.*

*Bydd cyflwyno'r trefniadau uchod yn darparu hyblygrwydd ychwanegol yn y tymor canolig, er y cydnabyddir nad yw'n cael gwared ar yr angen i chwilio am atebion tymor hirach, na ellir eu cyflawni ond trwy newid deddfwriaeth sylfaenol.*

**<u>Argymhelliad 8.</u> Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau'r GIG i sicrhau bod gwybodaeth gyhoeddus gadarn a digon manwl ar gael mewn modd amserol am y costau ariannol a'r manteision sy'n gysylltiedig â newid gwasanaethau'r GIG ochr yn ochr â gwybodaeth am risgiau a manteision clinigol.**

**Ymateb:-** ***Derbyn***

*Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau ar gyfer Ymgysylltu ac Ymgynghori ar Newidiadau i Wasanaethau Iechyd ym mis Mawrth 2011, sy'n nodi'r disgwyliadau i sefydliadau'r GIG wrth fwrw ymlaen ag ymgysylltu ac*

*ymgynghori ar newidiadau i wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys y gofyniad i:*

- *nodi sail resymegol glir dros newid, a gefnogir gan achos clinigol sy'n dangos buddion newid a pheryglon peidio â newid*
- *darparu gwybodaeth berthnasol gan gynnwys gwybodaeth ariannol am newid arfaethedig i alluogi'r Cyngor Iechyd Cymuned i graffu ar y cynnig mewn modd gwybodus.*

*Mae'r canllawiau'n ei gwneud yn glir y dylai ymgynghoriad cyhoeddus:*

- *esbonio pam mae angen newid a darparu tystiolaeth glir;*
- *esbonio canlyniadau newid neu gadw'r sefyllfa bresennol, o ran ansawdd, diogelwch, hygyrchedd ac agosrwydd gwasanaethau*
- *rhoi darlun clir o oblygiadau ariannol y gwahanol gynigion.*

*Yn dilyn yr ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori presennol, bydd Llywodraeth Cymru, ar y cyd gyda'r GIG, yn adolygu'r dogfennau ymgynghori a'r adborth er mwyn ystyried a oes angen diweddaru'r canllawiau.*

**<u>Argymhelliad 9.</u> Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda sefydliadau'r GIG er mwyn ei gwneud yn bosibl i gynnwys staff clinigol wrth wneud penderfyniadau ariannol mewn ffordd gyson.**

**Ymateb:-** ***Derbyn***

*Ers cyhoeddi'r Strategaeth Gwybodaeth Ariannol yn 2005, mae gan Lywodraeth Cymru rôl sydd wedi'i hen sefydlu yn y gwaith o ddatblygu a gwella gwybodaeth ariannol sy'n glinigol berthnasol. Mae hyn yn cynnwys parhau i ariannu a chefnogi Tîm Rhaglen y Strategaeth Gwybodaeth Ariannol sy'n gweithio trwy Grŵp Gwybodaeth Ariannol a Chostio, gyda chydweithwyr o'r GIG, gan gynnwys cynrychiolwyr clinigol. Mae'r Grŵp wedi arwain a chydgysylltu'r gwaith o ddatblygu systemau gwybodaeth ariannol ers cyhoeddi'r Strategaeth Gwybodaeth Ariannol yn 2005. Mae'r gwaith hyd yma wedi cynnwys gwaith parhaus i ddatblygu ffurflenni costio a ffurflen cyllidebu rhaglenni ac mae wedi cael ei gefnogi gan Grŵp Costio Technegol. Bydd y Grŵp yn arwain wrth fwrw ymlaen â'r camau gweithredu a'r argymhellion ar thema Gwybodaeth Ariannol yn Nhrefn Ariannol newydd y GIG.*

*Bellach mae'r holl Fyrddau Iechyd yn gweithredu systemau ariannol sy'n eu galluogi i ganfod costau hyd lefel claf unigol. Mantais y systemau hyn yw eu bod yn rhoi gwybodaeth gyfoethog i'r staff clinigol am oblygiadau eu hymarfer clinigol o ran adnoddau. Mae'r wybodaeth ariannol hon, sy'n glinigol berthnasol ac ar lefel claf unigol, yn floc adeiladu hanfodol wrth ymgysylltu clinigwyr â thema 1000 o Fywydau a Mwy o leihau gwastraff, niwed ac amrywiadau.*

*Er enghraifft, byddent yn gallu cymharu costau llawn triniaeth ar gyfer grŵp o gleifion a dderbyniwyd gydag afiechydon tebyg. Byddent yn gallu gweld sut*

*mae costau triniaeth pob claf unigol yn amrywio yn ôl faint o amser mae yn yr ysbyty, ei drefn gyffuriau, yr amser a dreuliodd yn y theatr llawdriniaethau, neu'r profion diagnostig a gafodd.*

*Bydd y math hwn o ddadansoddiad yn helpu staff cyllid, rheoli a chlinigol i gael trafodaethau mwy ystyrlon ynghylch faint o adnoddau mae eu hangen i ateb y galw ar y gwasanaeth, a'r cyfleodd i arbed arian o ganlyniad i wella effeithlonrwydd clinigol.*

*Mae Cynllunio'n un o gyfrifoldebau'r Bwrdd a thrwy'r Cyfarwyddwyr Meddygol sy'n aelodau o'r Byrddau mae gan glinigwyr ran lawn wrth ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu cynlluniau gwasanaeth ac ansawdd cadarn. Ar gyfer 2013/14 mae Llywodraeth Cymru wedi atgyfnerthu'r newid yn y pwyslais o gynlluniau ariannol i gynlluniau integredig, trwy ganllawiau a thempledi ar gyfer cynllunio gwasanaethau clinigol, gweithlu ac ariannol ehangach, yn ogystal ag adolygu a chyfarfodydd â Phrif Weithredwyr a'u Swyddogion Gweithredol. Yn sylfaen i hyn bydd mesurau cyfannol a threfniadau rheoli perfformiad i ymdrin â'r ystod lawn o wasanaethau sy'n cael eu sicrhau gan Fyrddau Iechyd Lleol integredig.*

**<u>Argymhelliad 10.</u> Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyfleoedd deddfwriaethol i fynd i'r afael ag anhyblygrwydd trefniadau ariannol Byrddau Iechyd dros flynyddoedd ariannol.**

**Ymateb:-** ***Derbyn***

*Fel y nodir yn yr ymateb i argymhelliad  7, mae gwaith wedi dechrau eisoes i gyflwyno hyblygrwydd ariannol ychwanegol i weithrediadau'r GIG, er y cydnabyddir y bydd angen newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn cael effaith fwy cynhwysfawr gan drefniadau hyblygrwydd ariannol. Mae'r Adran yn edrych ar Filiau eraill yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant yn y rhaglen ddeddfwriaethol gyda golwg ar wneud newidiadau cyn diwedd tymor presennol y Cynulliad.*

**<u>Argymhelliad 11.</u> Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi her gadarn i gyrff y GIG o ran y modd y maent yn cynllunio ac yn cyflawni eu cynlluniau arbed arian, er mwyn sicrhau y canolbwyntir ar gyflawni arbedion cynaliadwy drwy gydol y flwyddyn, yn hytrach nag ar arbedion anghylchol tua diwedd pob blwyddyn ariannol.**

**Ymateb:-** ***Derbyn***

*Mae Llywodraeth Cymru'n mynnu bod yr holl Gyrff Iechyd yn paratoi a darparu proffiliau o'u cynlluniau ar gyfer arbedion ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'r rhain yn cael eu diweddaru bob mis. Pan fernir nad yw'r cynlluniau hyn yn gadarn cânt eu herio ac mae'n ofynnol i'r Byrddau Iechyd ailasesu'r cynlluniau a'r proffiliau cyn eu cyflwyno'r mis canlynol.*

*Cydnabyddir bod cyfran yr arbedion yn cynyddu wrth i'r flwyddyn fynd ymlaen. Anogir Cyrff Iechyd i sicrhau eu bod yn dechrau ar eu prosesau cynllunio'n gynharach yn y flwyddyn ariannol flaenorol, ac felly'n sicrhau bod y proffil arbedion wedi'i rannu'n fwy gwastad ar draws y flwyddyn gyfan ac nad ydynt yn dibynnu ar sicrhau arbedion anghylchol yn y misoedd olaf.*

*Ar gyfer 2013/14 mae Llywodraeth Cymru wedi cryfhau'r fframwaith ac amserlen cynllunio i gynnwys canllawiau, templedi a chyflwyniadau drafft cynllunio. Mae'r broses hon yn cynnwys cyfarfodydd Cyfarwyddwyr Gweithredol i adolygu a herio cynlluniau drafft ac i gynorthwyo Cyrff Iechyd i roi eu gwedd derfynol ar gynlluniau integredig mantoledig.*

**Argymhelliad 12**. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad i ni, erbyn mis Mehefin 2013, ar y cynnydd y mae wedi'i wneud o ran cyflawni'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn ac yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

**Ymateb:-** ***Derbyn***

*Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu diweddariad erbyn diwedd mis Mehefin, er mae angen cydnabod mai dim ond  yn unol ag amserlen hirach y gellir mynd i'r afael â nifer o'r argymhellion.*

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320502
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Dyddiad: 15 Mai 2013
Ein cyf: HVT/1877/fgb
Tudalen: 1 o 2

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Annwyl Darren

Yn eich llythyr dyddiedig 30 Ebrill gofynnwyd am fy nghyngor ar ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor ynghylch Cyllid Iechyd.

Yn gyffredinol, mae ymateb Llywodraeth Cymru yn un cadarnhaol. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn holl argymhellion y Pwyllgor ac mae'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, i weithredu holl argymhellion y Pwyllgor. Er y gall fod yn fuddiol egluro rhai elfennau o'r ymateb ymhellach, ar y cyfan mae'r camau a'r cynigion yn ymddangos yn rhesymol.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad "mewn egwyddor" mewn tri achos. Dengys y testun sydd ynghlwm fod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r cafeat "mewn egwyddor" i adlewyrchu'r ffaith y bydd yr argymhellion yn anodd eu gweithredu yn y byrdymor. Ymddengys fod hyn yn adlewyrchu asesiad realistig, er enghraifft, fod angen gwneud rhagor o waith i ymdrin â'r bylchau ariannol yn y byrdymor a'r tymor canolig a datblygu ateb hirdymor fel bod Byrddau Iechyd yn gallu bod yn fwy hyblyg yn ariannol.

Fel rwyf eisoes wedi'i ddynodi i'r Pwyllgor, rwy'n bwriadu llunio adroddiad pellach ar Gyllid Iechyd i'r Pwyllgor ei ystyried yn yr hydref. Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried sefyllfa ariannol y gwasanaeth iechyd gan edrych ar y sefyllfa ar gyfer 2012-13 a heriau'r dyfodol. Rwyf hefyd yn bwriadu i'm hadroddiad roi cipolwg bras o berfformiad Llywodraeth Cymru yn erbyn ei thargedau â blaenoriaeth ar gyfer darparu a gwella gwasanaethau. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, bydd fy staff yn ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor a'm hargymhellion i.

Llinell Uniongyrchol: 029 2032 **0510** E-bost: huw.vaughan.thomas@wao.gov.uk



100% recycled paper
100% o bapur a ailgylchwyd

Disgwylir i Lywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor ym mis Mehefin. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cael budd o'm hadroddiad pellach i'w ystyried yn yr hydref. Felly, rwy'n awgrymu y gallai'r Pwyllgor fod yn awyddus i aros nes bod ganddo'r wybodaeth ychwanegol hon cyn penderfynu ar y camau i'w cymryd, os o gwbl, mewn perthynas ag ymateb Llywodraeth Cymru.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Wasanaethau Mamolaeth yng Nghymru**

**Mawrth 2013**

---

Yn dilyn y llythyr dyddiedig 11 Chwefror 2013 a oedd yn amgáu adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Wasanaethau Mamolaeth yng Nghymru, rydym wedi ein calonogi sylwi bod y Pwyllgor yn teimlo y gwnaed cynnydd da i roi sylw i bryderon y pwyllgor blaenorol.

Mae’n bleser gennym adrodd hefyd:

- Bod Cynlluniau Cyflenwi yn awr wedi’u datblygu ac wedi dod i law oddi wrth bob Bwrdd Iechyd;

- Y bydd y Grŵp Gweithredu Gwasanaethau Mamolaeth Cymru gyfan yn cwblhau ei waith erbyn Ebrill 2013;

- Bod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Dehongli Cardiotocograff wedi cytuno ar becyn hyfforddiant ac wedi’i fabwysiadu i’w ddefnyddio i ddehongli monitro cyflymder calon y ffetws yn electronig (CTG);

- Bod pob Bwrdd Iechyd sydd â chyfraddau toriad Cesaraidd o 25% neu uwch wedi darparu naratif i esbonio’r gyfradd ac wedi cyflwyno’u cynlluniau ar gyfer gwella.

**Argymhelliad 1**
**Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn rhyddhau i’r cyhoedd Gylch Gwaith y Bwrdd Cyflenwi Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth, gan gynnwys manylion sut mae’r Bwrdd yn cyflawni’r Cylch gwaith hwn a’i raglen waith. Argymhellwn hefyd y dylai allbwn ac argymhellion y Grŵp Gweithredu Gwasanaethau Mamolaeth a’i is-grwpiau hefyd fod ar gael i’r cyhoedd.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae rhan o wefan y Prif Swyddog Nyrsio yn awr yn cynnwys adran yn benodol ar Wasanaethau Mamolaeth. Defnyddir hon i roi’r diweddaraf i’r darllenwyr ar y cynnydd o safbwynt gweithredu’r Weledigaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yn ogystal ag i’w hysbysu o gynlluniau newydd sy’n ymwneud â gwasanaethau mamolaeth.

Mae Cylch Gwaith y Bwrdd Mamolaeth a'i raglen waith ar gael ar y wefan ynghyd â'r rhifyn cyntaf o gylchlythyr chwarterol 'Newyddion Mamolaeth'. Bwriedir y cylchlythyr ar gyfer Bydwragedd a Defnyddwyr ac mae'n darparu diweddariad byr ar y camau i weithredu'r Weledigaeth Strategol.

Caiff argymhellion y Grŵp Gweithredu Gwasanaethau Mamolaeth a'r allbwn gan y pum is-grŵp eu postio ar y wefan yn Ebrill 2013.

**Argymhelliad 2**
**Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau y ceir eglurder cynyddol ar weithredu Cynlluniau Cyflenwi Lleol ac y cyhoeddir amserlen glir ar gyfer cynhyrchu'r cynlluniau hyn.**

**Ymateb: Derbyn**

Daeth Cynllun Cyflenwi Lleol i law ar gyfer blynyddoedd 2012/2013 a 2013/2014 oddi wrth bob Bwrdd Iechyd. Mae swyddogion yn craffu ar y rhain a chânt eu trafod yng nghyfarfodydd y Bwrdd Mamolaeth. Diben y Bwrdd Mamolaeth yw:

Dwyn y Byrddau Iechyd i gyfrif am gyflenwi gwasanaethau mamolaeth yn unol â'r camau gweithredu allweddol yn y Weledigaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru drwy:

- Adolygu a monitro cynlluniau cyflenwi;
- Adolygu data mesur perfformiad a dangosyddion canlyniadau
- Trafod meysydd sy'n peri pryder os nad yw'r perfformiad yn gwella;
- Cytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer gwella;
- Lledaenu arferion da ledled Cymru; a
- Darparu adborth i reolwyr perfformiad yn LlC er mwyn hysbysu eu prosesau.

Er enghraifft, un maes perfformiad a gaiff ei fonitro yw ysmygu yn ystod beichiogrwydd. Mae mwy o famau sy'n byw yng Nghymru yn ysmygu gydol eu beichiogrwydd nag mewn unrhyw ardal arall o'r DU, a chynhwyswyd gostyngiad yn y cyfraddau uchel hyn fel un o'r dangosyddion allweddol yng Nghynllun Gweithredu Cymru ar Reoli Tybaco. I ddewis ffordd ymlaen, sefydlwyd prosiectau peilot mewn pedair ardal Bwrdd Iechyd i brofi gwahanol fodelau o gefnogaeth rhoi'r gorau i ysmygu i fenywod beichiog.

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd Mamolaeth ddwywaith y flwyddyn yn y gwanwyn a'r hydref er mwyn rhoi sylw i berfformiad blaenorol a blaengynllunio ar gyfer gwella'r cyflenwi. Gosodwyd y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd Mamolaeth ar gyfer 2013 ac mae'r Byrddau Iechyd wedi cytuno arnynt.

Mae'r Canllawiau Gweithlu yn dwyn ynghyd y safonau presennol a ddisgwylir i gynnal gwasanaethau cynaliadwy, diogel a bydd angen ystyried y canllawiau hyn wrth i'r Byrddau Iechyd ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer ail-ddylunio gwasanaethau.

Pryd bynnag y ceir materion trawsffiniol, disgwylir i'r Byrddau Iechyd rannu eu Cynlluniau Cyflenwi Lleol gyda chyrff y GIG yn Lloegr.

**Argymhelliad 3**
**Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â'r Is-grŵp Gwybodeg, yn datblygu ac yn gweithredu proses casglu data electronig gadarn a chyson ar gyfer gwasanaethau mamolaeth ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru er mwyn dileu'r angen am gasglu data yn aneffeithlon â llaw.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae gan bob Bwrdd Iechyd yn awr gynlluniau wedi'u sefydlu i gywreinio ac ymestyn defnyddio'r systemau mamolaeth gweithredol cyfredol neu eu disodli er mwyn casglu data electronig cadarn a chyson, gan leihau baich casglu data yn aneffeithlon â llaw.

Mae aelodau'r Is-grŵp Gwybodeg, gan weithio gyda'u cydweithwyr o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS), Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Byrddau Iechyd, wedi canfod proses ar gyfer tynnu data o systemau gweithredol electronig cyfredol y GIG. Caiff y data ei ddadansoddi i gynhyrchu'r mesurau a'r dangosyddion a nodir gan yr Is-grŵp Dangosyddion. Yn seiliedig ar ganlyniadau'r gwaith hwn, bydd y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth o fewn NWIS yn bwrw'r gwaith hwn ymlaen er mwyn cywreinio set safonedig o eitemau data.

Gofynnir i'r Byrddau Iechyd adrodd ar eu cynnydd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Mamolaeth yn y gwanwyn a disgwylir iddynt gyflwyno'r holl ddata sy'n ofynnol erbyn Gorffennaf 2013.

**Argymhelliad 4**
**Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn egluro ac yn cyhoeddi ei diffiniad o "rieni gwybodus a hyderus" ac yn sicrhau:**

- **bod y diffiniad hwn yn cael ei fynegi wrth yr holl Fyrddau Iechyd i sicrhau bod y data a gesglir yn erbyn y mesur perfformiad hwn yn gyson ledled Cymru; ac**

- **y rhennir yr arferion da ymysg y Byrddau Iechyd i gynorthwyo i fesur yn erbyn y diffiniad hwn.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn a byddwn yn dechrau ar y gwaith angenrheidiol er mwyn cyflawni ei amcanion.

Penderfynwyd ymgysylltu â rhanddeiliaid a defnyddwyr i gael eu barn gan fod diffiniad o “rieni gwybodus a hyderus” yn cynrychioli dealltwriaeth oddrychol.

Cyfarfu grŵp o randdeiliaid Cymru gyfan, gan gynnwys cadeiryddion defnyddwyr y Pwyllgorau Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth yn y Byrddau Iechyd, yn Ionawr 2013 i gytuno ar y dull gorau o gasglu gwybodaeth am foddhad defnyddwyr o safbwynt rhieni gwybodus a hyderus a chael eu trin â pharch ac urddas.

Cytunwyd y byddai pob Bwrdd Iechyd yn defnyddio’r un fformat ar gyfer gofyn y cwestiynau hyn cyn i fenyw adael yr ysbyty yn dilyn genedigaeth.

Caiff yr arferion da eu rhannu drwy gyfrwng y Bwrdd Arloesi a sefydlwyd gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a drwy gyfrwng adroddiadau chwe misol gan y Bwrdd Mamolaeth.

Disgwylir i’r Byrddau Iechyd hefyd ryddhau’r wybodaeth hon i’r cyhoedd drwy gyfrwng eu gwefannau a’u hysbysfyrddau lleol.

Gofynnir i’r Byrddau Iechyd gydgasglu’r ymatebion ac adrodd wrth y Bwrdd Mamolaeth, gyda’r mesur cyntaf yn cael sylw ym Mwrdd Mamolaeth yr hydref.

**Ceir cwestiynau enghreifftiol i’r Byrddau Iechyd eu defnyddio yn atodiad 1**

**Argymhelliad 5**
**Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn darparu eglurhad ar ei disgwyliadau o safbwynt y lefelau staffio gofynnol er mwyn sicrhau gwasanaethau obstetreg a bydwreigiaeth diogel a chynaliadwy a’i bod yn rhoi esboniad o sut mae’r data a gesglir oddi wrth gyrff iechyd ar eu lefelau staffio mewn bydwreigiaeth yn darparu manylder digonol i ganfod a yw’r disgwyliadau hyn yn cael eu bodloni.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a’r Gynaecolegwyr yn argymell y dylai presenoldeb ymgynghorwyr fod yn 40 awr yr wythnos ar uned oni bai bod gan yr uned dros 5,000 o enedigaethau’r flwyddyn, ac os felly, dylai fod yn 60 awr yr wythnos.

Mae Coleg Brenhinol y Bydwragedd yn argymell defnyddio Birthrate Plus i bennu lefelau staffio mewn bydwreigiaeth.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gofyn am niferoedd dydd i ddydd y staff sy’n gweithio mewn gwasanaethau mamolaeth oherwydd y disgwylir i’r Byrddau Iechyd reoli salwch ac absenoldeb. Er hynny, rydym yn hyderus y cawn wybodaeth gywir ar gydymffurfio â gofynion Birthrate Plus a nifer y staff meddygol sydd mewn swyddi.

Disgwyliwn y bydd yr holl Fyrddau Iechyd yn cydymffurfio â'r safonau hyn. Er mwyn sicrhau y cynhelir hyn, bydd gofyn iddynt adrodd ar eu lefelau staffio yng nghyfarfodydd chwe misol y Bwrdd Mamolaeth.

**Argymhelliad 6**
**Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Byrddau Iechyd i sicrhau y rheolir defnyddio staff asiantaeth a locwm yn effeithlon er mwyn dibynnu cyn lleied â phosib ar ddefnyddio staff dros dro i lenwi bylchau hirdymor. Argymhellwn hefyd fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Byrddau Iechyd i wahanu'r costau staffio meddygol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau mamolaeth oddi wrth y costau sy'n gysylltiedig â Gynaecoleg.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda holl sefydliadau'r GIG i fonitro a chraffu ar wariant ar staff asiantaeth a locwm gydol y flwyddyn ariannol ar lefel y Byrddau Iechyd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd, drwy gyfrwng y Grŵp Cyflenwi Cenedlaethol, wedi pwysleisio pwysigrwydd lleihau defnyddio staff asiantaeth a locwm, ac wedi rhannu gyda Byrddau Iechyd eraill fanylion arferion da ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan i sicrhau gostyngiadau. Gofynnwyd i Fyrddau Iechyd eraill ystyried cymryd camau tebyg er mwyn cael gostyngiadau pellach yn y costau. Yn ogystal, hyrwyddwyd defnyddio systemau rhestrau dyletswydd electronig i sicrhau y defnyddir staff a gyflogir yn barhaol i'r eithaf. Rhyddhawyd cefnogaeth ariannol i'r systemau hyn drwy gyfrwng cynllun Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru. Rhoddir ystyriaeth bellach i gasglu'r wybodaeth hon ar lefel Gwasanaethau Mamolaeth fel rhan o'r wybodaeth am berfformiad y gofynnir amdani ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a drefnwyd ar gyfer y gwanwyn a'r hydref.

Mae'r Byrddau Iechyd ar hyn o bryd yn dosbarthu cyfanswm y costau meddygol rhwng gwasanaeth mamolaeth a gynaecoleg er mwyn cyflwyno costau arbenigedd yn y datganiad costau cyfeirio cenedlaethol blynyddol. Yn gyffredinol, bydd Byrddau Iechyd yn defnyddio cynlluniau swyddi ymgynghorwyr fel y sylfaen ar gyfer dosbarthu'r holl gostau meddygol rhwng gwasanaethau mamolaeth a gynaecoleg. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella cywirdeb data costau'r GIG. Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr grwpiau technegol i wella dyrannu costau meddygol, gan gynnwys costau locwm, rhwng gwasanaethau mamolaeth a gynaecoleg ar gyfer datganiadau costau cyfeirio i'r dyfodol yn natganiadau costau cyfeirio 2012/13. Yn unol â'r amserlenni costau cyfeirio, caiff y rhain eu cwblhau erbyn Hydref 2013.

**Argymhelliad 7**
**Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Byrddau Iechyd i fonitro ac adolygu'n rheolaidd gymhwysedd ac anghenion hyfforddiant holl staff unedau mamolaeth er mwyn sicrhau**

**bod mwy o staff yn gallu dehongli data monitro cyflymder calon y ffetws yn electronig.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Prif Swyddog Nyrsio wedi arwain Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymru gyfan i gytuno ar y pecyn hyfforddiant mwyaf priodol a fydd am y tro cyntaf yn cynnwys asesiad o gymhwysedd.

Disgwylir i bob Bwrdd Iechyd yn awr gyflwyno'r pecyn asesu a hyfforddi hwn erbyn Medi 2013.

Bydd y Byrddau Iechyd yn adrodd ar eu cynnydd gerbron y Bwrdd Mamolaeth yn yr hydref. Disgwylir iddynt gadw cofnodion o asesiadau a hyfforddiant staff ynghyd â gwybodaeth am nifer y digwyddiadau difrifol sy'n gysylltiedig â chamddehongli CTG er mwyn sicrhau bod y pecyn hyfforddi ac asesu yn gwella'r dehongli.

**Argymhelliad 8**
**Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i roi sylw i'r prinder staff mewn unedau newyddenedigol ac mae'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu i sicrhau bod Byrddau Iechyd ledled Cymru yn gwella'u trefniadau cynllunio gweithlu ar gyfer gofal newyddenedigol. Yn benodol, argymhellwn ei bod yn rhoi sylw i gyflenwi gwasanaethau newyddenedigol yng ngogledd Cymru wrth ddatblygu cynlluniau'r gweithlu.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae materion staff yn her o hyd er bod yr Adolygiad o Gapasiti Newyddenedigol diweddaraf yn dangos cynnydd. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd bu gwelliant yn y lefelau staffio nyrsys newyddenedigol. Mae'r bwlch mewn prinder nyrsys wedi gostwng oddeutu 50% o 82.64 cyfwerth ag amser llawn (wte) yn yr adolygiad blaenorol i 42.027 wte yn yr adolygiad hwn.

Byrddau Iechyd sy'n gyfrifol yn y pendraw am lefelau gweithlu yn eu hardaloedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn dwyn BILlau i gyfrif ar gyflenwi gwasanaethau newyddenedigol yn erbyn safonau.

Mae'r Rhwydwaith Newyddenedigol yn gwneud cynnydd i ddatrys problemau'r gweithlu fel blaenoriaeth allweddol, fel y dangosir yn Adolygiad o Gapasiti 2013. Mae'r Rhwydwaith Newyddenedigol:-

- Yn datblygu cynllun gweithlu newyddenedigol cadarn (meddygol, nyrsio, therapïau) ar gyfer y 5 i 10 mlynedd nesaf.
- Yn gweithio gyda'r BILlau i sefydlu rhaglenni cylchdroadau clinigol nyrsio i gefnogi datblygu cymhwysedd
- Yn datblygu hyfforddiant aml-broffesiynol, yn seiliedig ar archwiliad o anghenion ar draws BILlau
- Yn gweithredu cyfrwng aciwtedd y gweithlu nyrsys.

**Argymhelliad 9**
**Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn egluro ac yn cyhoeddi ei diffiniad o "ostyngiad sylweddol" mewn cyfraddau toriad Cesaraidd ynghyd ag amserlen y mae'n disgwyl i'r Byrddau Iechyd lynu wrthi ar gyfer cyflawni gostyngiad o'r fath.**

**Ymateb: Derbyn**

Daeth data cyfredol i law oddi wrth y Byrddau Iechyd ar eu cyfraddau toriadau Cesaraidd (fe'u gwelir yn y tabl isod). Cwblheir yr adroddiadau bob mis o Ebrill 2013 ymlaen.

| **Bwrdd Iechyd** | **Cyfradd Toriad Cesaraidd** |
|---|---|
| Aneurin Bevan | 23.7% |
| Abertawe Bro Morgannwg | 25.7% |
| Betsi Cadwaladr | 25.5% |
| Caerdydd a'r Fro | 20.4% |
| Cwm Taf | 29.2% |
| Hywel Dda | 25.9% |
| Powys | Amh |

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld gostyngiad yn y cyfraddau toriadau Cesaraidd os yw'r Byrddau Iechyd yn adrodd 25% neu drosodd yn ystod 2013. Os yw'r cyfraddau yn 25% neu'n uwch mae'r Byrddau Iechyd wedi darparu eu cynlluniau i ostwng y cyfraddau hyn a chaiff y rhain eu trafod yng nghyfarfodydd y Bwrdd Mamolaeth.

Disgwylir i Fyrddau Iechyd sydd â chyfraddau is na 25% adolygu a gwella'n barhaus er mwyn sicrhau bod eu cyfraddau'n aros yn briodol ar gyfer eu poblogaethau.

**Argymhelliad 10**
**Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn sefydlu system fwy trylwyr ar gyfer casglu ac adolygu gwybodaeth gan y Byrddau Iechyd ar eu perfformiad o safbwynt cyfraddau toriadau Cesaraidd. Argymhellwn hefyd i adborth mwy rheolaidd ac ystyrlon gael ei ddarparu i gynorthwyo Byrddau Iechyd i reoli'r cynnydd i leihau'r cyfraddau pryd bynnag y bo hynny'n bosibl. Dylai'r adborth hwn adlewyrchu'r sialensiau a osodir gan ganllawiau NICE ar doriadau Cesaraidd.**

**Ymateb: Derbyn**

Fel y gwelir uchod mae Llywodraeth Cymru yn awr yn disgwyl adroddiadau misol ar Gyfraddau Toriadau Cesaraidd gan y Byrddau Iechyd gyda naratif i gyd-fynd â hwy os yw'r cyfraddau yn uwch na 25%. Caiff hyn ei archwilio ymhellach gyda phob Bwrdd Iechyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Mamolaeth er

mwyn canfod arferion da a gwendidau, fel ei gilydd. Yn dilyn pob cyfarfod, bydd y Byrddau Iechyd yn cael adborth gan y Prif Swyddog Nyrsio.

Pryd bynnag y ceir gwelliant sylweddol yn y cyfraddau, gofynnir i'r Byrddau Iechyd rannu'r arferion da drwy gyfrwng y Bwrdd Arloesi a sefydlwyd gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ogystal â drwy gyfrwng y pwyllgorau Cymru gyfan megis Grŵp Ymgynghorol Penaethiaid Bydwreigiaeth Cymru a'r Grŵp Ymgynghorol Arbenigol Cenedlaethol ar Iechyd Menywod.

Mae'r holl Fyrddau Iechyd yn defnyddio Dangosfyrddau lleol i adrodd am eu cyfraddau toriadau Cesaraidd wrth y Bwrdd Mamolaeth fel y gall y tîm gweithredol drafod gwelliannau parhaus.

**Argymhelliad 11**
**Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn egluro bod y data y mae'r Byrddau Iechyd yn adrodd arnynt ar asesiadau cynenedigol cychwynnol a wnaed yn ystod deg wythnos cyntaf y beichiogrwydd yn gyson ac yn gadarn, ac yn benodol y dylai'r data:**

- **gynnwys asesiadau a wneir gan feddygon teulu yn ogystal â bydwragedd; a**
- **pheidio â chynnwys asesiadau a drefnwyd ond na wnaed o bosibl.**

**Ymateb: Derbyn yn Rhannol**

Sefydlwyd y mesur perfformiad hwn i sicrhau bod menywod yn cael mynediad cynnar at wasanaethau priodol fel y gallant gael gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn cynnwys cynnal asesiad cychwynnol, cymryd gwaed ac ysgrifennu cynllun gofal ar gyfer y beichiogrwydd.

Er ei bod yn bwysig i fenywod allu cael mynediad at y gefnogaeth a'r cyngor cynnar hwn ac y gwneir cynlluniau ar gyfer y beichiogrwydd, nid yw Llywodraeth Cymru yn teimlo bod arni angen data ynglŷn ag ai bydwraig ynteu meddyg teulu wnaeth yr asesiad.

Mae aelodau'r Is-grŵp Gwybodeg, gan weithio gyda'u cydweithwyr o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS), Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Byrddau Iechyd, wedi canfod proses ar gyfer tynnu data o systemau gweithredol electronig cyfredol y GIG. Caiff y data ei ddadansoddi i gynhyrchu'r mesurau a'r dangosyddion a nodir gan yr Is-grŵp Dangosyddion. Yn seiliedig ar ganlyniadau'r gwaith hwn, bydd y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth o fewn NWIS yn bwrw'r gwaith hwn ymlaen er mwyn cywreinio set safonedig o eitemau data.

Yng nghyfarfod y Bwrdd Mamolaeth yn y gwanwyn, gofynnir i'r Byrddau Iechyd adrodd ar gyfran y menywod y cynhaliwyd yr asesiadau cychwynnol ohonynt erbyn 10 wythnos gyntaf eu beichiogrwydd.

Bydd ond yn cynnwys asesiadau a gwblhawyd, ac a wnaed gan weithiwr proffesiynol priodol – meddyg teulu neu fydwraig.

Disgwylir i'r Byrddau Iechyd gyflwyno'r holl ddata gofynnol erbyn Gorffennaf 2013.

Gofynnir i'r Byrddau Iechyd lunio adroddiad.

**Argymhelliad 12**
**Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus erbyn Gorffennaf 2013 ar gynnydd pob Bwrdd Iechyd i wella gwasanaethau mamolaeth.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd yn bleser gan Lywodraeth Cymru ddarparu diweddariad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus erbyn Gorffennaf 2013, yn dilyn y cylch cyntaf o gyfarfodydd y Bwrdd Mamolaeth.

**A wnaethom Gyflawni?**

[Ticiwch lle bynnag y teimlwch sydd fwyaf priodol i chi ar y raddfa]

1. Ein nod yw eich paratoi chi a'ch partner i ddechrau magu'ch baban ac i chi deimlo'n hyderus a bod gennych gefnogaeth dda i ofalu am eich baban.

   A lwyddom i wneud hyn?

   | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
   |---|---|---|---|---|
   | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
   | Ddim ar unrhyw adeg | | | | Drwy'r amser |

2. Mae'n bwysig i ni y cewch eich trin â pharch a charedigrwydd.

   A lwyddom i wneud hyn?

   | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
   |---|---|---|---|---|
   | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
   | Ddim ar unrhyw adeg | | | | Drwy'r amser |

**A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym?**

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320502
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Dyddiad: 15 Mai 2013
Ein cyf: HVT/1880/fgb
Tudalen: 1 o 3

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Annwyl Darren

## GWASANAETHAU MAMOLAETH YNG NGHYMRU

Yn llythyr y Clerc dyddiedig 27 Mawrth 2013 gofynnwyd am fy nghyngor ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor dyddiedig Chwefror 2013 sef *Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru*. Mae'r ymateb yn gadarnhaol, yn yr ystyr bod Llywodraeth Cymru wedi dynodi ei bod yn derbyn 11 o argymhellion y Pwyllgor a'i bod yn rhannol dderbyn yr argymhelliad sy'n weddill. Mewn sawl man, mae'r ymateb yn pwysleisio gwaith sy'n mynd rhagddo fel yr adlewyrchwyd hefyd yn adroddiad y Pwyllgor. Fodd bynnag, ceir nifer o feysydd y gallai'r Pwyllgor fod am ystyried gwneud gwaith dilynol arnynt. Yn benodol:

- Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn *Argymhelliad 4* sydd a wnelo â'r diffiniad o 'rieni hyderus a gwybodus' a threfniadau ar gyfer mesur canlyniadau cysylltiedig. Gan adlewyrchu'r ymrwymiadau a wnaed yn y llythyr a gafodd y Pwyllgor gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd ym mis Ionawr 2013, mae'r ymateb i'r argymhelliad hwn yn cadarnhau y cytunwyd ar y dull o fesur boddhad defnyddwyr. Caiff y data hwn ei gasglu cyn i fenywod adael yr ysbyty yn dilyn genedigaeth. Tra bod yr ymateb a roddwyd yn mynd i'r afael ag argymhelliad y Pwyllgor yn dechnegol, efallai y bydd aelodau o'r farn bod seilio'r gwaith casglu data hwn ar un cwestiwn cyn i fenywod adael yr ysbyty yn gyfyngedig. Er enghraifft, ni fyddai'n ystyried effeithiolrwydd y cymorth a gaiff menywod ar ôl iddynt adael yr ysbyty a byddai, yn ôl pob tebyg, yn golygu nad asesir y menywod hynny sy'n dewis rhoi genedigaeth gartref, er bod y gyfran honno'n fechan.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn *Argymhelliad 8* sydd a wnelo â chynllunio gweithlu gofal newyddanedig. Ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru i argymhelliad blaenorol yn y maes hwn gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc (argymhelliad a gefnogwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus), gall y Pwyllgor gael peth sicrwydd bod camau ar waith i wella'r broses o gynllunio gweithlu gofal

Llinell Uniongyrchol: 029 2032 **0510** E-bost: huw.vaughan.thomas@wao.gov.uk



100% recycled paper
100% o bapur a ailgylchwyd

newydd-anedig. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi sut y bydd yn dwyn byrddau iechyd i gyfrif yn y maes hwn ac nid oes unrhyw gyfeiriad at y modd yr ymdrinnir ag agwedd Gogledd Cymru ar argymhelliad y Pwyllgor. Ym mis Ionawr 2013, dynododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd y byddai'n rhoi copi o adroddiad cynnydd Adolygiad o Adnoddau Newyddanedig a ddisgwyliwyd ym mis Chwefror 2013 i'r Pwyllgor. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i argymhelliad y Pwyllgor yn awgrymu ei bod yn defnyddio canfyddiadau o'r adroddiad cynnydd hwnnw ond efallai y bydd y Pwyllgor am gael copi llawn o'r adroddiad hwnnw o hyd fel yr addawyd (os na chafodd ei roi eisoes).

- Mae a wnelo *Argymhelliad 9* â Llywodraeth Cymru yn egluro ac yn cyhoeddi ei diffiniad o 'ostyngiad sylweddol' mewn cyfraddau toriadau Cesaraidd ac yn cyflwyno amserlen i adlewyrchu pryd y mae disgwyl gweld gostyngiad o'r fath. Wrth dderbyn argymhelliad y Pwyllgor, ac fel yr adlewyrchwyd yn rhywfaint o'i thystiolaeth flaenorol, ymddengys fod ymateb Llywodraeth Cymru yn cadarnhau ei bod bellach yn canolbwyntio'n bennaf ar p'un a yw cyfraddau toriadau Cesaraidd yn briodol, ond gyda tharged ymhlyg na fyddai'n disgwyl i unrhyw fwrdd iechyd gael cyfraddau toriadau Cesaraidd dros 25 y cant. Nid yw'r ymateb yn glir o ran yr amserlenni ar gyfer cyflawni unrhyw ostyngiadau angenrheidiol, heblaw am ddynodi ei bod yn disgwyl gweld gostyngiadau yn ystod 2013 os yw Byrddau Iechyd yn nodi cyfraddau o 25 y cant neu drosodd. Fel y dengys y ffigurau a roddwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru, ac yn y dystiolaeth a ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor, mae Bwrdd Iechyd Cwm Taf yn wynebu her benodol os yw am gyflawni'r hyn a fyddai, iddo ef, yn ostyngiad sylweddol i lai na 25 y cant.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi mai dim ond yn rhannol y mae'n derbyn *Argymhelliad 11* ar gasglu a chofnodi data ar asesiadau cynenedigol cychwynnol a wneir o fewn y deg wythnos gyntaf o feichiogrwydd. Ymddengys fod y derbyniad rhannol hwn yn adlewyrchu camddealltwriaeth o argymhelliad y Pwyllgor. Mae'r ymateb yn dynodi: *"Nid yw Llywodraeth Cymru yn teimlo bod arni angen data ynglŷn ag ai bydwraig ynteu meddyg teulu wnaeth yr asesiad"*. Ni wnaeth yr argymhelliad ofyn i Lywodraeth Cymru ddadgyfuno'r data hwn, gan adlewyrchu'n syml y pryder nad oedd data o'r fath wedi bod yn gyflawn gynt. Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn awgrymu y disgwylir i fyrddau iechyd gofnodi data ar sail pryd y cynhaliwyd yr asesiadau (nid pryd y'u hamserlennwyd) a chynnwys pob asesiad cychwynnol waeth p'un a gaiff ei gynnal gan fydwraig neu feddyg teulu. Yn hynny o beth, gall y Pwyllgor gael peth sicrwydd bod camau yn cael eu cymryd i ymdrin â'r pryder a arweiniodd at yr argymhelliad.

Mewn ymateb i *Argymhelliad 12*, mae Llywodraeth Cymru wedi addo darparu diweddariad pellach ym mis Gorffennaf 2013 ar gynnydd byrddau iechyd i wella gwasanaethau mamolaeth. Gallai'r Pwyllgor ofyn i Lywodraeth Cymru ehangu cwmpas y diweddariad hwnnw er mwyn ceisio eglurhad pellach o unrhyw bwyntiau a restrir uchod. Fodd bynnag, gallai'r Pwyllgor hefyd ystyried dynodi i Lywodraeth Cymru y byddai'n barod i gael y diweddariad hwnnw oddeutu mis Hydref 2013 yn lle hynny, neu cyn gynted â phosibl ar ôl cyfarfod y Bwrdd Mamolaeth yn yr hydref. Mae rhaglen waith ddisgwyliedig y Pwyllgor yn golygu na fydd ganddo fawr o gyfle efallai i ystyried unrhyw ddiweddariad pellach cyn torri am yr haf, hyd yn oed os yw Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu ar amser. Drwy dderbyn y diweddariad ar ôl cyfarfod y Bwrdd Mamolaeth yn yr hydref, byddai'r Pwyllgor yn cael mwy o sicrwydd ei fod yn adlewyrchu'n briodol y sefyllfa ddiweddaraf a nodwyd ar y pwynt y gellir ei hystyried.

Yn olaf, nodaf fod ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhelliad 6 yn adroddiad y Pwyllgor yn cyfeirio at y canlynol: *"Mae'r Byrddau Iechyd ar hyn o bryd yn dosbarthu cyfanswm y costau meddygol rhwng gwasanaeth mamolaeth a gynaecoleg er mwyn cyflwyno costau arbenigedd yn y datganiad costau cyfeirio cenedlaethol blynyddol. Yn gyffredinol, bydd Byrddau Iechyd yn defnyddio cynlluniau swyddi ymgynghorwyr fel y sylfaen ar gyfer dosbarthu'r holl gostau meddygol rhwng gwasanaethau mamolaeth a gynaecoleg"*. Mae'r ymateb yn mynd ymlaen i ddisgrifio gwaith sy'n mynd rhagddo er mwyn gwella'r broses o ddyrannu'r costau hyn mewn datganiadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, wrth baratoi ei adroddiad ar Gontract Meddygon Ymgynghorol y GIG, gallai'r Pwyllgor fod am nodi bod y dystiolaeth y mae wedi'i chael ar y graddau y mae gan feddygon ymgynghorol y GIG gynlluniau swyddi cyfredol yn codi cwestiynau ehangach ynghylch cadernid unrhyw ddata ehangach sy'n seiliedig ar y cynlluniau hynny.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

Yr Adran Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad
Department for Strategic Planning, Finance and Performance

Cyfarwyddwr Cyffredinol • Director General

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Darren Millar AM
Chair, Public Accounts Committee

National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

13 May 2013

Dear Mr Millar

**Procurement & Management of Consultancy Services**

Following my appearance at the meeting of the Public Accounts Committee on 18 April, supported by Alison Standfast and Kerry Wilson, I give below the additional information which your Committee requested.

**Action points for response:**

**1. A note on approval controls and the delegation to procurement consultants**

Each Directorate within Welsh Government has in place an approval framework which sets out the arrangements in place for decisions relating to administrative costs, including the engagement of consultants. The framework sets out:

- which decisions need to be taken at Director General (DG) level;
- which will need to be signed off by the DG for People, Places and Corporate Services once departmental DGs have approved them; and,
- which decisions can be delegated by DGs, either to their resourcing panels or to individual Directors, Deputy Directors or Heads of Branch

Within the framework, each DG decides the exact arrangements for delegated decision making in their areas and makes this explicit by issuing letters of delegation to their managers.

Across all Directorates, expenditure on management consultancy of any value, requires approval by the Director General prior to the expense being incurred.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 823494
michael.hearty@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

2. **An update on savings made by the Managing for Less programme**

A breakdown of the three year outturn and year on year reductions achieved as a result of the Managing with Less programme is attached at *Annex A*.

The total savings on the identified cost headings achieved by the programme over three years totalled £25.8m.

Managing with Less was a cost reduction initiative introduced by the then Permanent Secretary in response to the reduced budget allocation to Welsh Government and was relevant at the time.

As I stated in my evidence to committee we are now moving on to more effectively challenging and managing our demand for the use of consultancy services. The introduction of the National Procurement Services will drive this improvement forward.

3. **Further information on costs associated with services provided by Spikes Cavell**

The 2010-11 expenditure analysis exercise conducted by Spikes Cavell cost £282,078.

4. **Further detail on the consistency and quality of all procurement related data across the public sector, including the methodology (i.e. the fields and requisite characters analysed)**

The consistency and quality of available procurement related data is patchy across the public sector. Different organisations use different financial management systems and different coding structures.

To give a consistent picture of expenditure, Spikes Cavell have been engaged on two separate occasions to undertake a detailed analysis of an extract of creditor ledger data from public bodies across Wales.

This exercise analysed £3.8bn of expenditure from 32 public bodies across Wales. A total of 72,872 suppliers data was analysed, consisting of 3,703,938 invoice lines.

The use of a web hosted analysis tool allows us to manipulate this large data set to understand at an organisational, sectoral or all-Wales basis issues such as:

- expenditure within local authority postcode regions;
- expenditure with Wales based suppliers;
- expenditure with SMEs;
- expenditure by category;
- common suppliers who have a high Dun and Bradstreet risk rating; and,
- suppliers who are common across a number of organisations.

5. **The value of tendering exercises made through the Government Procurement Service.**

In the financial year 2012-13, information recorded at a corporate level on procurement activity over £25k shows that the Welsh Government spend of £2.5m was awarded to suppliers through frameworks let by the Government Procurement Service.

6. **Further information comparing the National Audit Office Consultancy Self-Assessment toolkit to the system currently used by the Welsh Government.**

According to paragraph 3.6 and Appendix 2 of the Auditor General's report, the estimated £23.4 million a year savings figure (calculated at Appendix 3 of the report) was based on an analysis of the findings from site visits and related survey information relating to the seven public bodies visited by the WAO, which included the Welsh Government and was then extrapolated across the Welsh public sector.

As also noted in paragraph 3.6 of the report, the efficiency savings calculator is only as reliable as the quality of the information and the judgements that form the basis of the calculation. As such, it provides only a broad indication of the scale of overall efficiency savings that might be possible. Accordingly, the WAO did not attempt to provide separate analyses for individual public bodies.

However, after the site visit to Welsh Government, the WAO did use the tool to make their own assessment of Welsh Government and identified a potential for annual savings up to £7.4 million, based on annual expenditure of £42 million.

The reduction in expenditure across Welsh Government on Management Consultancy alone between 2009-10 and 2011-12 totalled £7 million.

Yours sincerely



**Michael Hearty**

cc Jane Hutt AM, Minister for Finance & Leader of the House
Jeff Andrews, Specialist Policy Adviser

Annex A

**Managing with Less 3 Year Outturn**

| Totals £ | 2009-10 | | | 2010-11 | | | 2011-12 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Admin | Programme | Total | Admin | Programme | Total | Admin | Programme | Total |
| Management Consultancy | 10,129,055 | 1,074,897 | 11,203,952 | 4,559,051 | 821,163 | 5,380,214 | 3,885,616 | 234,206 | 4,119,822 |
| Non Permanent Staff | 11,084,932 | 8,251,043 | 19,335,975 | 8,639,947 | 8,420,858 | 17,060,805 | 6,893,257 | 7,345,419 | 14,238,676 |
| Allowances | 1,431,458 | 151,379 | 1,582,837 | 1,197,824 | 133,482 | 1,331,306 | 866,523 | 178,520 | 1,045,043 |
| Overtime | 914,468 | 246,006 | 1,160,474 | 634,291 | 64,232 | 698,523 | 220,999 | 450,453 | 671,452 |
| Travel & Subsistence | 7,440,153 | 1,731,924 | 9,172,077 | 4,682,988 | 1,930,469 | 6,613,457 | 3,958,346 | 2,475,789 | 6,434,135 |
| Stationery and ICT | 3,002,906 | 2,747,936 | 5,750,842 | 1,099,599 | 555,063 | 1,654,662 | 867,394 | 382,970 | 1,250,364 |
| Printing | 236,246 | 2,655,091 | 2,891,337 | 171,942 | 1,497,160 | 1,669,102 | 86,570 | 1,263,148 | 1,349,718 |
| Meetings & Hospitality | 875,215 | 3,145,101 | 4,020,316 | 335,415 | 962,770 | 1,298,185 | 60,553 | 74,157 | 134,710 |
| **Total** | **35,114,433** | **20,003,377** | **55,117,810** | **21,321,057** | **14,385,197** | **35,706,254** | **16,839,258** | **12,404,662** | **29,243,920** |

Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon